



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Annwyl gydweithwyr,

### **Parthed: rheoli achosion o COVID-19 mewn lleoliadau gofal plant**

Yn sgil y ffaith bod ysgolion a lleoliadau gofal plant bellach wedi ailagor yng Nghymru, mae'n holl bwysig inni bwysleisio y dylai pawb barhau i fod yn effro a sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau swyddogol gan Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu cyngor penodol sy'n unol â'r canllawiau yn y Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy i Gymru (2020). Mae'r cyngor yn ymwneud ag ymchwilio i glystyrau a digwyddiadau COVID-19 mewn lleoliadau addysg a gofal plant, a'u rheoli (atodir y nodyn cyngor hwnnw). Mae'n amlinellu'r camau y dylid eu cymryd i ddiogelu unigolion a chymunedau pan fydd achosion yn digwydd, yn ogystal â lleihau lledaeniad yr haint i gymunedau eraill:

1. Nodi achosion mewn clwstwr posibl
2. Casglu gwybodaeth sylfaenol
3. Gwaith cychwynnol i reoli clwstwr ac asesu'r risg
4. Nodi digwyddiad a'i reoli

### **Nodi Clystyrau ac Achosion**

**Clwstwr** posibl yw dau neu fwy o achosion a gadarnhawyd o COVID-19 ymhlith plant neu staff mewn lleoliad gofal plant, o fewn 14 diwrnod, neu gynnydd yn y gyfradd absenoldeb oherwydd achosion a amheuir neu a gadarnhawyd o COVID-19.

**Digwyddiad** posibl yw dau neu fwy o achosion a gadarnhawyd o COVID-19 ymhlith plant neu staff sy'n gysylltiadau agos uniongyrchol, yn gysylltiadau agosrwydd neu yn yr un grŵp neu gohort (a elwir weithiau'n 'swigod')\* yn y lleoliad, o fewn 14 diwrnod. \* Gallai grŵp neu gohort ('swigen') fod yn ddosbarth, yn grŵp blwyddyn neu'n grŵp arall a ddiffinnir.

Mae'n bwysig egluro y dylai'r broses arferol ar gyfer Profi, Orlhain, Diogelu gael ei dilyn hyd yn oed os caiff dim ond un achos o COVID-19 ei nodi mewn lleoliad,

Dylai timau olrhain cysylltiadau hysbysu am ('fflagio') achosion a gadarnhawyd o COVID-19 mewn lleoliad, a chysylltu â'r lleoliadau gofal plant i bennu a oes clystyrau neu ddigwyddiadau posibl. Fodd bynnag, os bydd clwstwr neu ddigwyddiad posibl wedi'i nodi gan y lleoliad neu'r Awdurdod Lleol, rhaid iddynt gysylltu â'u Tîm Profi, Orlhain, Diogelu amlasiantaeth rhanbarthol cyn gynted ag y bydd y clwstwr neu'r digwyddiad posibl wedi'i nodi.

### **Casglu gwybodaeth sylfaenol a rheoli clwstwr**

Bydd timau Profi, Orlhain, Diogelu rhanbarthol yn cydweithio â phennaeth y lleoliad a'r Awdurdod Lleol perthnasol i gasglu amrywiaeth o wybodaeth sy'n gysylltiedig â natur unigryw y lleoliad, y cyd-destun a'r sefyllfa sy'n berthnasol i'r achosion, ac i bennu a yw'r canllawiau ar fesurau rheoli haint/mesurau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer plant a staff wedi'u dilyn. Caiff asesiad risg ei gynnal, ac os na fydd digwyddiad yn cael ei ddatgan, bydd y tîm Profi, Orlhain,

Diogelu rhanbarthol yn parhau i gydweithio â'r staff yn y lleoliad i reoli a chadw golwg ar y clwstwr.

### **Pan fydd Digwyddiad yn cael ei ddatgan**

Mae'n debygol y caiff Tîm Rheoli Digwyddiad (IMT) ei ffurfio ac y caiff unigolion allweddol y mae angen iddynt ymchwilio i'r sefyllfa a'i rheoli eu gwahodd i fod yn rhan o'r Tîm hwnnw.

Ar sail amgylchiadau penodol y digwyddiad a'r lleoliad, bydd y Tîm Rheoli Digwyddiad yn ystyried y canlynol:

- a. A ddylid gwneud addasiadau i'r ffordd y mae'r lleoliad yn gweithredu i hwyluso mesurau Atal a Rheoli Heinitiau a chadw pellter cymdeithasol.
- b. A oes angen gofyn i grwpiau ychwanegol hunanynysu (e.e. grwpiau dosbarth, grwpiau gweithredol eraill).
- c. A ddylid cynnal ymchwiliad manylach, gan gynnwys profi grŵp\* ehangach.

*\* Gall y grŵp i'w brofi fod yn ehangach na'r grŵp a nodwyd i gadw draw, a gallai gynnwys y lleoliad cyfan neu adran benodol o'r lleoliad.*

Gellir datgan bod digwyddiad wedi dod i ben pan fydd 28 diwrnod wedi mynd heibio ers dechrau'r achos olaf a gadarnhawyd yn yr ysgol/lleoliad, a bod unrhyw achosion posibl ymhlith disgyblion neu staff yn y cyfnod hwnnw wedi cael canlyniadau prawf negyddol.

### **Rhoi dull cyflym ar waith i gynnal Profion Antigenau PCR**

Bydd dull cyflym ar waith i gynnal profion i ymdrin ag achosion mewn lleoliadau gofal plant fel rhan o raglen waith Profi, Orlhain, Diogelu GIG Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol.

Bydd modd rhoi dull cyflym ar waith i gyflenwi a samplu profion antigenau, a hynny mewn amryw o ffyrdd - er enghraifft trwy ddefnyddio Unedau Profi Symudol, canolfannau profi ategol dros dro neu becynnau profi gartref. Bydd yr holl randdeiliaid yn trafod ac yn cytuno ar y dull profi mwyaf priodol.

### **Profion Gwrthgyrff**

Ar hyn o bryd, mae'r profion gwrthgyrff ar gael drwy raglen brofi gyfyngedig yn unig mewn rhai lleoliadau addysg a gofal iechyd. Gwneir hynny i helpu i ddeall serogyffredinolrwydd y feirws yn y cohort hwnnw.

Yn gywir,

Claire Bennett

Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchgu Tlodi  
Llywodraeth Cymru